

Astudiaeth Achos y Grant Plant a Chymunedau Mawrth 2021

Cymorth Teuluoedd yn Gyntaf

Gwnaed atgyfeiriad i Banel Lles/Teuluoedd yn Gyntaf SPACE gan Gydgysylltydd Gofal ISCAN yn gofyn am gymorth i'r teulu yn ymwneud â chyllid a chymorth i gael mynediad at adnoddau cymunedol.

Sefydlodd Gweithiwr Ymyriadau Teuluol yn yr Hyb Cymdogaeth berthynas â'r teulu a chynhaliodd asesiad cychwynnol a oedd yn nodi bod DV blaenorol wedi bod yn effeithio ar iechyd meddwl y Fam, felly rhoddwyd cymorth gyda hyn.

Helpodd y gweithiwr y teulu i ymgysylltu a chael mynediad i nifer o wasanaethau, gan gynnwys:

- Cyngor ariannol a chyllidebol, gan gynnwys dyledion a budd-daliadau tai;
- Grantiau cymunedol i helpu'r teulu i brynu eitemau gan gynnwys cot, a charped ar gyfer ystafelloedd gwely'r plant;
- Cymorth i gael mynediad i Homes Options a'r Tîm Cefnogi Pobl o ran symud i eiddo mwy, mwy addas;
- Cyngor ar reoli'r cartref, gan gynnwys cymorth i glirio sbwriel;
- Mynediad at wasanaethau iechyd, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl i Mam, Therapi Lleferydd ac Iaith i'r mab 3 oed (a gafodd ddiagnosis o Awtistiaeth ac Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig), cymorth amenedigol, nyrs plant arbenigol, ac ati;
- Mynediad at addysg a chymorth i fab ag anghenion ychwanegol;
- Rhoddwyd cefnogaeth 'dymuniadau a theimladau' i'r mab 7 oed gan y llinyn Atal oherwydd ei fod yn emosynol ac yn ddryslud iawn am ei Dad y mae'n ei weld ond bob hyn a hyn;
- Roedd y llinyn CANS yn cefnogi Mam gyda rhai strategaethau rhiant yn ymwneud ag Awtistiaeth ac Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.

Y sefyllfa bresennol – mae'r teulu bellach yn derbyn y Credyd Cynhwysol ac yn sefydlog o ran eu sefyllfa ariannol ac yn ymdopi'n dda, gyda chynllun talu ar waith ar gyfer eu hól-ddyledion rhent.

Mae'r berthynas o ymddiriedaeth a adeiladwyd gan y Gweithiwr Ymyriadau Teuluol gyda Mam wedi bod yn hanfodol iddi gael cymorth ymyriadau cynnar yn ei chymuned leol ar gyfer nifer o faterion cymhleth yr oedd y teulu'n eu hwynebu. Mae hyn wedi bod yn allweddol o ran cynnal yr ymgysylltiad ac o ran atal cynnwys y gwasanaethau statudol.

Asiantaethau allweddol sydd wedi cymryd rhan:

Llinyn Atal yr Hyb Cymdogaethol
Tîm Cefnogi Pobl
Cydlynnydd Gofal ISCAN
Cartrefi Dinas Casnewydd
Lleferydd ac Iaith,
Ysgol Gynradd a Dechrau'n Deg
Hyb Diogelu a Gwasanaethau Plant

Llinyn Atal
Cymorth Fel Bo'r Angen - Prosiect Goleudy
Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg
Nyrs Arbenigol, Canolfan Blant Serennu
Llinyn atal
Llinyn CANS